

CIC

Nos Wener, Rhagfyr 14, byddwn yn mynd i Ganolfan Glasfryn, Y Ffôr, i'r Bowllo 10. Mae angen dychwelyd y ffurflenni mor fuan â phosibl.

Cyfraniadau 2018 Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2018 yn cau ddydd Sul, Rhagfyr 30. Bydd unrhyw gyfraniad a dderbynnir wedi'r diwrnod hwnnw yn cael ei roi yng nghyfrifon 2019. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Cyngerdd Nadolig

Bydd Cyngerdd Nadolig Côr Capel Coch a Chyfeilion yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7.00 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 23. Mae tocynnau ar werth am £5 yn Siop Crib Goch, Llanberis (neu gellir talu wrth y drws ar y noson). Bydd yr elw at waith Cynllun Efe.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 9: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch yn **Nhŷ Elidir** gan y Parchg Gwynfor Williams.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Mawrth, Rhagfyr 4: Bore Coffi

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Rhagfyr 9

3.30 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Rhagfyr 16

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 23

5.00 p.m. - Oedfa Nadolig yng ngofal yr ieuenctid

er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Rhagfyr 4: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch. Y gŵr gwadd y mis hwn fydd y Prifardd Myrddin ap Dafydd.

Nos Wener, Rhagfyr 7: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 9: Gwasanaethir yn y ddwy oedfa, am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Rhagfyr 3: Te Nadolig y Dosbarth Gwau yng Nghaffi Coed y Brenin am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 7: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 9 Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Rhagfyr 9: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Oedfa am 2.00 o'r gloch. Manylion i'w cyhoeddi yn yr oedfa heddiw.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 9: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 16

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Rhagfyr 23

10.30 a.m. - Oedfa Nadolig y Plant

7.00 p.m. - Cyngerdd Nadolig

Côr Capel Coch a Chyfeillion

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 777
02 Rhagfyr 2, 2018
Gronyn

Disgwyl

Mae'n Sul cyntaf mis Rhagfyr, a hwnnw eleni yn Sul cyntaf tymor yr Adfent. (Os nad oes ym mis Rhagfyr ond tri Sul cyn y Nadolig, Sul olaf Tachwedd fydd Sul cyntaf yr Adfent.) Ystyr y gair Adfent (a ddaw o'r gair Lladin *adventus*) yw 'dyfodiad'. Yn syml iawn, yr hyn a wna'r Eglwys Gristnogol yn nhymor yr Adfent yw dathlu dyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist i'r byd.

Un wedd arbennig i'r tymor hwn yw'r disgwyl neu'r aros sydd ynghlwm wrth y Nadolig a'i ddathliadau. Mae'r holl addurniadau a goleuadau a gyneuwyd yr wythnos ddiwethaf yn dangos fod pobl eisoes yn edrych ymlaen at yr Ŵyl. Dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf, bydd y disgwyl yn cryfhau a'r cyffro'n dyfnhau wrth i blant o bob oed weld y Nadolig a'i hwyl yn agosau. Edrych ymlaen y mae Cristnogion at ddatlu'r ffaith fod Mab Duw wedi dod yn blentyn bach ym Methlehem. Wrth i'r Nadolig nesau eleni eto, boed i ni hiraethu am gael cyhoeddi a dathlu ei ddyfodiad.

Un peth a all fod o help i ni wneud hynny yw cofio'r disgwyl mawr a fu am y dyfodiad hwnnw. Ers canrifoedd, bu'r Iddewon yn disgwyl am y Meseia. Roedd y Gwardwr wedi ei addo i'r genedl trwy eiriau'r proffwydi; a bu'r bobl yn aros amdano. Roedd y disgwyl yn gryfach ac yn fwy amlwg ar rai adegau. Roedd mwyafrif y bobl yn disgwyl math anghywir o waredwr am nad oeddent wedi deall yn gywir neges

y proffwydi. Ond er hynny, yr oedd ym mhob oes bobl a ddaliai i ddisgwyl amdano.

Dyfodiad Iesu Grist yw canolbwynt pob dim. Ymhell cyn i'r un proffwyd sôn am wryf yn beichiogi a baban bach yn cael ei eni yn ninas Dafydd, yr oedd yna ddisgwyl amdano. Y Meseia hwn oedd 'had y wraig' y soniwyd amdano yng Ngardd Eden: 'Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau; bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'i sawdl ef' (Genesis 3:15).

O'r cychwyn cyntaf, felly, roedd yna ddisgwyl am yr Un a ddeuai i achub trwy 'ysigo' neu goncro'r diafol a'i holl ddrygioni. Fe blannwyd yn y ddynoliaeth hiraeth am gael bod yn rhydd o afael drygioni a'i ganlyniadau. Dyfodiad Iesu Grist fyddai pen llanw'r holl aros. Mae llawer yn cael trafferth i dderbyn pwyslais y Ffydd Gristnogol ar un dyn o blith holl bobl y byd. Mae'r syniad o edrych nôl ar un dydd (boed dydd geni neu ddydd marw'r dyn hwnnw) yn od yn eu golwg.

Ond pan gofiwn yr addewidion a wnaed amdano, a'r disgwyl a fu ar hyd y canrifoedd am ei ddyfodiad, daw'r un person a'r un dydd fwy a mwy i'r canol. Am hwn y disgwyliai pobl Dduw erioed. Ac wedi iddo ddod, am hwn y bu'r Eglwys yn sôn, ac am hwn y mae'n dal i dystiolaethu nid yn unig yn Nhymor yr Adfent ond bob dydd o'i bodolaeth.

Adfent 1

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Yn ystod yr oedfa gweinyddir y ddau sacrament: y Bedydd a'r Cymundeb.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Elwyn Richards.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein holl aelodau sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Mae mwy nag un yn yr ysbty ar

Balm o Salm



'Y mae fy nghalon yn gadarn, O Dduw; fe ganaf, a rhoi mawl. Deffro, fy enaid. Deffro di, nabl a thelyn. Fe ddeffroaf ar doriad gwawr. Rhof ddiolch i ti, O ARGLWYDD, ymysg y bobloedd, a chanmolaf di ymysg y cenhedloedd, oherwydd y mae dy gariad yn ymestyn hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymylau' (Salm 108:1-4).

hyn o bryd neu wedi bod yn yr ysbty yn ddiweddar. Ar Sul cyntaf yr Adfent, gweddiwn am gymorth i edrych ymlaen at ddathlu'r Nadolig hwn eto ddyfodiad Crist i'n byd.

Coffâd

Mae dau goffâd yn weddill o'r misoedd na chyhoeddwyd *Gronyn* eleni.

Mrs Margaret Ellen Jones

Bu farw Mrs Margaret Ellen Jones, 'Hafan', Porth y gogledd, Deiniolen ar Fai 11 yn 80 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad o'r newydd i'w phriod Ernest, a'i merch Jennifer a'i chymar hithau Arwyn, a'r teulu yn eu hiraeth.

Yr oedd Margaret yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn Ebeneser, a gweithiodd yn ddiwyd yno gan gefnogi holl waith yr eglwys. Yr oedd yn wraig annwyl a charedig, a bu'n driw iawn i'w theulu a'i ffrindiau ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd ei gofal am Ernie a Jennifer yn fawr i'r diwedd, fel y bu ei gofal am ei rhieni a'i brawd a'i chwaer yng nghyfraith cyn hynny. Bu'n weithgar o fewn mudiadau a gweithgareddau eraill yn y pentref hefyd. Yr oedd yn fonheddig, yn urddasol ac yn llawn parch at eraill; ac yng nghwmni ei theulu a'i chyfeillion bu iddi fwynhau pethau gorau bywyd, a hynny'n cynnwys gwyliau yr oedd hi mor hoff ohonynt. Yr

oedd ei chroeso i'w haelwyd bob amser yn gynnes. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Llandinorwig a Mynwent Machpela ddydd Mawrth, Mai 22 dan arweiniad y Gweinidog.

Rehoboth a Capel Coch

Heddiw, bydd aelodau Rehoboth a Chapel Coch yn pleidleisio'n derfynol o blaid uno'r ddwy eglwys.

Bydd y bleidlais yn Capel Coch yn y bore ac yn Rehoboth yn y pawns. Bydd pleidleisiau'r ddwy eglwys yn cael eu cyfrif gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân. Bwriedir i'r uno ddigwydd ddechrau 2019.

Deiniolen

A ninnau erbyn hyn wedi bod yn cynnal ein hoedfaon yn Nhŷ Elidir ers bron i fis mae'n iawn i ni ddiolch i gyfarwyddwyr, prif weithredwr a staff Menter Fachwen am y croeso a gawsom yno. Mae'r croeso a'r cydweithrediad a gawsom wedi gwneud y symudiad yno yn hwylus.

Mae wedi bod yn braf iawn gweld bod cynulleidfa unedig y ddwy eglwys wedi bod mor barod i ddal i ddod i'r oedfaon er i'r lleoliad newid. Nid oedd yn hawdd meddwl am symud o gapel i ganolfan, ond mae'r ffaith fod y gynulleidfa wedi gwneud hynny mor barod yn arwydd clir mai oedfa ac addoliad sy'n cyfrif iddi. Yr ydym eisoes gobeithio yn gweld y gallwn addoli Duw a chael cymdeithas â'n gilydd yn ein cartref newydd yn Nhy Elidir. Am awr ar nos Sul, mae stafell y llyfrgell yn troi yn addoldy am fod pobl Dduw yn dod at ei gilydd yn enw Iesu Grist i ddarllen y Beibl, canu emyn, gweddio a chyhoeddi'r Efenngyl.

Diolch yn fawr iawn am eich menter a'ch ffydd a'ch ffyddlondeb i'r oedfaon ac i Achos yr Arglwydd Iesu Grist. Mae'r symudiad yn cadarnhau'r ffaith ein bod, er yn perthyn i ddau enwad gwahanol, yn

Crefft a Stori

Bore Sadwrn nesaf,

Rhagfyr 8

10.30 – 12.00 o'r gloch

yn Capel Coch, Llanberis

ar gyfer plant o oed Meithrin
hyd at Flwyddyn 6

Croeso cynnes

un gynulleidfa o addolwyr yn Nhŷ Elidir. Boed i'r symudiad hwn i le newydd, nad oes iddo gysylltiad â'r un eglwys na'r un enwad, ein huno ymhellach yn un teulu o bobl Iesu Grist. Gweddiwn am fendith Duw ar ein tystiolaeth. Boed i Dduw dosturio wrthym fel bod y symudiad hwn wir yn gychwyn newydd i'n tystiolaeth a'n gwaith yn y pentref.

Ebeneser

Erbyn hyn mae Festri Ebeneser wedi ei gwagio. Cyn trosglwyddo'r adeiladau i'r perchnogion newydd aed ati i stori dros dro bopeth a gadwyd gennym. Bydd pwyllgor Ebeneser yn trafod y ceisiadau a dderbyniwyd am wahanol eitemau oddi wrth yr aelodau mor fuan â phosibl.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel Coch ddydd Mawrth diwethaf. Diolch unwaith eto i bawb a ddaeth yno i gefnogi'r Ffair, a diolch wrth gwrs i bawb a gyfrannodd nwyddau ac a fu'n gweithio i gynnal y cyfan. Gwnaed elw o £530 at Gronfa'r Capel.